# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2006 10 Hydref Cofnodion

CYNGOR CYMUNED Y BETWS

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher y 11eg o Hydref 2006 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Menna Roberts (Cadeirydd), Henadur Arnallt D James, y Cynghorwyr Anne Sizmur, June Gunter, Loreen Lewis, Annette Price, Peter Cowell, Carwyn James, Keith Rees, E Audrey Jones a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

YMDDIHEURIADAU: Delyth Richards.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1.DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 13eg O FEDI 2006.
Roedd gan y Cynghorwr Sir John D Evans newidiad i wneud ynglyn â'r cofnodion, dylai tudalen 4, 7.2 ddarllen fod y 'canghennau coed yn rhwystro'r goleuadau ar fynedfa Heol Y Cyrnol, 20 llath yn uwch na'r ty olaf ar Heol Y Cyrnol'. Cytunodd y Cynghorwyr i'r newidiad. Cadarnhaodd y Cynghorwr Arnallt James ac eiliodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod cofnodion cyfarfod y 13eg o Fedi 2006 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Cais Cynllunio - Datblygiad Preswyl ar Barc Coetir, Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr nid yw hi wedi derbyn ymateb hyd yn hyn wrth Gyngor Sir Caerfyrddin.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.2 Marciau Ffordd ar Heol Iscennen, Rhydaman.
Darllenodd y Clerc ymateb derbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin sydd wedi cadarnhau bod copi o lythyr y Clerc wedi cael ei ddanfon ymlaen at Glerc Cyngor Dref Rhydaman, am eu hystyriaeth.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.3 Cadwyn Y Cadeirydd.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr mai hi wedi gwneud ymholiadau gyda Chlerciai Chynghorau Cymuned Leol eraill sydd wedi hysbysu bod nhw'n defnyddio Fattorini (gof aur ac arian) ynglyn â chadwyn y Gadeiryddes. Awgrymodd y Cynghorwr Peter Cowell ac eiliodd y Cynghorwr Carwyn James fod y Clerc yn gwneud trefniadau perthnasol ynglyn ag atgyweirio'r difrod i'r enamel ac ychwanegu wyth dolen newydd i gwblhau'r gadwyn y Cadeirydd.
PENDERFYNWYD: yn dilyn pleidlais roedd yna benderfyniad unfrydol wedi cael eu gwneud gan y Cynghorwyr, bod y Clerc yn gwneud trefniadau perthnasol ynglyn ag atgyweirio'r difrod i'r enamel ac ychwanegu wyth dolen newydd i gwblhau'r gadwyn y Cadeirydd.

2.4 Llwybr Troed 68/11.
Adroddodd y Cynghorwr Arnallt James nid oes arwyddion 'dim baw cwn' ar lwybr troed 68/11

ar fynedfa Heol y Cyrnol.
PENDERFYNWYD: roedd y Cynghorwyr mewn cytundeb fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn a gall arwyddion ‘dim baw cwm’ cael ei rhoi ar lwybr troed 68/11.

Adroddodd y Cynghorwr Sir John D Evans ei fod wedi gofyn am bins baw cwm i gael ei rhoi ar Heol Maescware a Heol y Cyrnol.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.5 Betws yn ei Blodau.
Adroddodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y noson cyflwyniad Betws yn ei Blodau wedi bod yn llwyddiannus. Roedd pawb yn bresennol wedi croesawi’r gystadleuaeth am flwyddyn nesaf. Diolchodd y Cynghorwr Annette Price Cynghorwr Anne Sizmur am y gwaith mae hi wedi cyfrannu ynglyn â hyn.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.6 Cyngor Sir Caerfyrddin - Cytundeb Lefel Gwasanaeth.
Darllenodd y Clerc ymateb dderbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin, nid oes gan y Cyngor Sir Cytundeb Lefel Gwasanaeth fel y cyfryw a bod nhw’n glanhau pam a lle mae eisiau.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr all y Cyngor Sir sgubo’r ardaloedd ym Metws a hefyd glanhau’r sbwriel ar hyd y llwybrau canlynol:-
Parc Chwarae Heol Y Felin, Heol Y Betws, Heol y Mynydd, Heol Argoed a Heol Y Cyrnol.

2.7 Archifo Ffeiliau Hen y Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi archifo’r ffeiliau canlynol gyda’r Adran Archifo o Gyngor Sir Caerfyrddin:-
6 x Llyfrau Cofnodion 1 x Llyfr Taliadau a derbyniad.
Hefyd dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod ganddi lyfrau sieciau ac anfonebau sydd wedi cael ei ddefnyddio, yn anffodus nid yw’n nhw’n gallu cael ei archifo gyda Chyngor Sir Caerfyrddin. Mae’r Clerc wedi siarad gydag Un Llai I Gymru sydd wedi dweud ei bod hi’n gallu cael gwared â’r llyfrau sieciau ac anfonebau sydd wedi cael ei ddefnyddio sydd dros wyth mlwydd oed, a bun cael ei gwneud yn iawn.
PENDERFYNWYD: Cytunwyd y Cynghorwyr fod y Clerc yn gallu cael gwared or llyfrau sieciau ac anfonebau sy dros wyth mlwydd oed.

2.8 Tir ger Heol Y Felin, Betws.
Adroddodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod Cyfreithwyr Un Llais I Gymru methi helpu’r Cyngor Cymuned ar y mater hwn. Mae’r Clerc wedi dod ar draws copïau o’r weithred berchnogaeth sydd yn lliw. Mae hi wedi siarad gyda’r Cyfreithwyr o Gyngor Sir Caerfyrddin sydd wedi cadarnhau efallai byddan nhw’n gallu helpu’r Cyngor Cymuned ynglyn â ‘anrheg o dir’ a hefyd cofrestru’r tir.
PENDERFYNWYD: Cytunodd y Cynghorwyr fod y Clerc yn danfon copïau o’r dogfennau at Gyfreithwyr Cyngor Sir Caerfyrddin.

2.9 Pennaeth Ysgol Gynradd Betws.
Dywedodd y Cynghorwr June Gunter wrth y Cynghorwyr fod Mrs James yn ymddiheuro ei bod hi methi ddod i gyfarfod Cyngor y Gymuned mis hon. Penderfynodd y Cynghorwyr i wahodd Mrs James i’r Cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned sydd ar yr 8fed o Dachwedd 2006.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn gwahodd Mrs James i’r Cyfarfod Cyngor Cymuned nesaf.

2.10 Logo Cyngor Cymuned y Betws.
Rhoddodd y Clerc copi o’r logo lliw Cyngor Cymuned Y Betws i’r Cynghorwr Arnallt James fel y gallai ddodi yn ganol y torch.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.11 Y Groes am yr Eglwys.
Adroddodd y Cynghorwr Keith Rees nid yw e’ wedi derbyn ymateb ynglyn â’r groes i’r

Eglwys.
NODWYD: y pwynt uchod.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Cyngor Sir Caerfyrddin - Gwobrwyo Personoliaeth Chwaraeon.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr mai hi wedi derbyn gohebiaeth wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â'r Gwobrwyo Personoliaeth Chwaraeon. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Cyngor Cymuned yn hysbysebu hyn yn y Guardian, hefyd awgrymodd y Cynghorwr Menna Roberts fod hyn yn cael ei ddodi ar wefan Cymuned y Betws. Cytunodd y Cynghorwyr.
NODWYD: y pwynt uchod.

3.2 Gohebiaeth derbyniwyd wrth y Blaid Lafur - Cangen Rhydaman.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn gohebiaeth wrth y Blaid Llafur ynglyn ag Adran Golygfa'r Stryd y Cyngor Sir.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr ei bod nhw'n cyd fynd a'r sylwadau yn y llythyr derbyniwyd wrth y Blaid Lafur, a bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin I gefnogi'r mater hyn.

3.3 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol:
1. Cyngor Sir Caerfyrddin
• Deddf Hapchwarae 2005.
• Cronfa Un - rhoddwyd i Gynghorwr Annette Price.
2. One Voice Wales
• Llyfryn Newyddion - rhoddwyd i Gynghorwr Keith Rees.
• Gwybodaeth Partneriaeth Un Llais I Gymru - rhoddwyd i Gynghorwr Keith Rees
• Bwletin Pwyllgor Ardal Sir Caerfyrddin.
3. Dechrau Cartref Dinefwr - gwahoddiad i'w cyfarfod blynyddol ar yr 17eg o Hydref 2006.
4. Grwp Cynghorau Lleol Aman - Agenda a Chofnodion.
5. Llywodraeth Cynulliad Cymru - Adroddiad Blynyddol y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol 2005-2006.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Mae'r cais canlynol wedi cael ei encilgar ynglyn â chytundeb derbyniwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar y 21ain o Fedi 2006.
E/13889 - Estyniad dau lawr i ochr y ty, 2 Heol Waungron, Betws (10).

4.2 Mae'r Adran Cynllunio o Gyngor Sir Caerfyrddin wedi cadarnhau fod y cais canlynol wedi cael ei lleoli ti fewn i'r cynllun datblygu unedol Sir Caerfyrddin.
E/13986 - Annedd a garej ar wahân, Plot ger Maesifan, Heol Waunddwfn, Betws (12).

4.3 Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn dau lythyr wrth ECO2 ynglyn ar Gais Cynllunio Tyrbinau Gwynt.
Ynglyn ar lythyr cyntaf dderbyniwyd ar y 14eg o Fedi 2006, gofynnodd y Clerc os oedd y Cyngor Cymuned am enwi aelod i eistedd ar Bwyllgor cronfa ymddiriedolaeth ECO2. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur nid oes pwynt enwi aelod i eistedd ar Bwyllgor Cronfa Ymddiriedolaeth oni fod y cais cynllunio yn cael ei cytûn.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at ECO2.

PENDERFYNWYD fod yr ail ohebiaeth a dderbyniwyd ar y 30ain o Fedi 2006, yn cael ei drafod yn cyfarfod nesaf Cyngor Cymuned y Betws sydd ar yr 8fed o Dachwedd 2006, a bod y Clerc yn danfon copïau o'r ohebiaeth i'r Cynghorwyr, cyn y cyfarfod mis nesaf. Cytunodd y Cynghorwyr.

5. CYFRIFON.
1. Gofalaeth y llwybrau troed £800.00

2. Ysgol Gynradd y Betws £317.50
CYFANSWM £1117.50
CYTUNWYD: I dalu'r biliau uchod.

Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod y siec roedd hi wedi talu i'r Gymdeithas Leol o Clercod yn cyfarfod mis diwethaf o £84.00 am gyfraniad wedi cael i ddychwelyd i'r Cyngor Cymuned oherwydd ni yw'r cyfraniad i'w ddisgwyl tan ddiwedd y flwyddyn.

Hefyd dywedodd y Clerc fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ad-dalu'r Cyngor Cymuned y rhandal cyntaf am y llwybrau troed o £720.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod yna 15 trosedd wedi'u cofnodi yn ardal y Betws ym mis Medi.

Dywedodd PC Kevin Jones fod yn dau Ddisgo Glas wedi cael ei gynhaliwyd yn fis Medi a fu dros 600 o bobl ifanc yn bresennol.

Dywedodd PC Kevin Jones fod y fan Camera Cyflymder wedi ei leoli ar hyd Heol Maescware, ond ni roddwyd ticedi cyflymder.

Adroddodd y Cynghorwr Keith Rees fod pobl ifanc yn gyrru beiciau 'scramber' ar hyd llwybr troed 68/11 (llwybr du). Cadarnhaodd PC Kevin Jones fydd yn edrych i mewn i'r mater hon.

Rhoddodd PC Kevin Jones adroddiad manwl i'r Cynghorwyr ynglyn ar wasanaeth negesau newydd mae Heddlu Dyfed Powys ar brawf ar hyn o bryd, hefyd rhoddodd taflennu gwybodaeth i'r Cynghorwyr.

NODWYD: y pwyntiau uchod.

Rhoddwyd y Gadeiryddes ddiolch i PC Kevin Jones am ei adroddiad.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Adroddodd Y Cynghorwr Sir John D Evans y canlynol:-
1. Betws yn ei Blodau - ymddiheurodd nid oedd yn gallu fod yn bresennol yn y noson gwobrwyo.
2. Cysgodfa Bws ar ystâd Treforis - Cadarnhaodd fod hyn wedi cael ei sefydlu.
3. Traffic Cyflym - ar hyd Heol Pentwyn - mae ef wedi danfon llythyr i Bennaeth Trafnidiaeth. Heol Betws - mae ef wedi gofyn am arwyddion 20 m.y.a. i gael ei sefydlu ar hyd yr heol ar gyffiniau'r Ysgol, mae'r Adran y Brifordd wedi dweud na. Mae ef wedi ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Addysg oherwydd nid yw hyn yn dderbyniol.
4. Pyllau Glo anarfer ym Metws - Mae ef wedi bodloni yn llwyr gydag Awdurdod y Glo. Mae ef wedi danfon e-bost i'r Adran Cynllunio i ofyn a gall archwiliad cael ei ymgymryd or Pyllau Glo anarfer ym Metws.
5. Glendid o Heol y Cyrnol - Mae ef wedi derbyn ymateb wrth Adran Golygfa'r Stryd sy'n fonitor sefyllfa ac maen nhw'n glanhau'r pafin od a pa bryd sydd eisiau.
6. Llif ar waelod Heol y Cyrnol - adroddodd fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi dweud mewn e-bost fydd y llif yn cael ei charthu ar Heol y Cyrnol, delai cael ei gwblhau cyn canol mis Hydref fan pellaf. Adroddodd y Cynghorwr Keith Rees nid yw'r gwaith wedi dechrau eto.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr bod y Clerc yn ysgrifennu at Mr William o Gyngor Sir Caerfyrddin i holi pan nid yw'r gwaith wedi dechrau eto.

NODWYD: y pwyntiau uchod.

Rhoddwyd y Gadeiryddes ddiolch i Gynghorwr Sir John D Evans am ei adroddiad.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Prosiect Parc Betws.
Roedd y Cynghorwr Annette Price wedi diweddaru'r Cynghorwyr ynglyn ar Brosiect Parc Betws. Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr nid yw hi wedi derbyn unrhyw ddyfyniadau hyd yn hyn ynglyn ar garreg am y Parc.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn danfon llythyron atgoffa i'r tri saer maen lleol.

Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price i'r Clerc i ddarparu'r dogfennau canlynol:-
? Cyfrifon Archwiliedig am y flwyddyn orffennol
? Cyfansoddiad
? Polisi Cyfle Cyfartal
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn darparu copïau or dogfennau uchod.

Adroddodd y Cynghorwr Annette Price gobeithio bydd y gatiau am y Parc yn mynd i gael ei ailosod gan gatiau newydd. Mae Adran Y Parc o Gyngor Sir Caerfyrddin wedi cadarnhau fod y Cyngor Sir yn gyfrifol am y cynnal a chadw'r Parc.

Fel y cytunwyd yn gynt gofynnodd y Cynghorwr Annette Price os all y Clerc ysgrifennu llythyr a fu'n dweud fod y Cyngor Cymuned yn mynnu talu am y planhigion, y mwyaf fydd hyn yn costio yw £2000. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliwyd gan y Cynghorwr Annette Price i roi'r gallu am y llythyr. Cytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn ysgrifennu llythyr yn dweud fod Cyngor Cymuned y Betws wedi cytuno talu am y planhigion.

9. SWYDD WAG CYNGHORYDD.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod pump enwebiadau wedi cael ei dderbyn am y swydd wag Cynghorydd sy'n cael ei llenwi gan gyfethol.
Mr Howell, Mr Tout, Mrs Smith, Mrs Walker a Mrs B Jones.
Cafodd pleidlais gudd ei ymgymryd ag fe BENDERFYNWYD fod Mrs B Jones yn cael ei gwahodd i serfio fel Cynghorydd Cymuned Cyfethol.

10. UNRHYW FATER ARALL.
Adroddodd y Cynghorwr June Gunter fod y goedwig tu allan i Bryn Fin ar Heol y Cyrnol yn achosi pryderon i breswylwyr lleol oherwydd mae'r dail yn cwympo i ffwrdd wrth y goedwig ac yn gwneud y palmant yn llithrig.
PENDERFYNWYD: y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at y preswyliwr.

Gofynnodd y Cynghorwr Menna Roberts os yw'r Cyngor Cymuned am gael cinio Nadolig am y flwyddyn hon. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur i gael cinio blwyddyn newydd yn fis Ionawr. Cynutwyd y Cynghorwyr i gael cinio yn fis Ionawr.
NODWYD: y pwynt uchod.

Roedd y Cynghorwr Audrey Jones wedi ymadael o'r Cyfarfod cyn bod yr adroddiad eithriedig yn cael ei drafod.